# GWELLA GOFAL SGLEROSIS YMLEDOL (MS) YNG NGHYMRU

## Mapio a dadansoddi'r gweithlu MS yng Nghymru: cipolwg

Mae sglerosis ymledol (MS) yn effeithio ar dros 6,900 o bobl yng Nghymru a gwelwyd cynnydd o 13% yn nifer yr achosion ers 2019[1]

Mae esblygiad y driniaeth ar gyfer MS, ble mae tuag 20 o therapïau addasu clefydau ar gael bellach,[2] wedi cael effaith glinigol ar ganlyniadau cleifion. Fodd bynnag, mae'r esblygiad hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i systemau gofal iechyd addasu er mwyn optimeiddio'r gofal a ddarperir

Caiff cleifion MS yng Nghymru eu gwasanaethu gan system gofal iechyd sy'n wynebu heriau daearyddol ac economaidd-gymdeithasol nodedig a all effeithio ar optimeiddio'r gofal a ddarperir




1. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
2. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
4. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
5. Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
6. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
7. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

*Y darparwyr gwasanaethau MS mwyaf yng Nghymru yw byrddau iechyd Caerdydd, Bae Abertawe ac Aneurin Bevan. Mae cleifion mewn byrddau iechyd eraill yn cael mynediad at ofal MS drwy gymysgedd o'r darparwyr hyn yn ogystal â chan wasanaethau lleol anarbenigol a gwasanaethau MS arbenigol yn Lloegr, fel Canolfan Walton yn Lerpwl.*

## Realiti darparu gofal MS yng Nghymru

### Mae capasiti'r gweithlu MS dan bwysau ledled Cymru...

Mae gan Gymru **1.3 o niwrolegwyr ymgynghorol cyfwerth ag amser cyflawn (WTE)** fesul 100,000 o'r boblogaeth, sydd 50% yn is na'r 2.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth ledled y DU gyfan[3]

Cyfartaledd llwythi achosion nyrsys MS yw **410 o gleifion MS fesul nyrs WTE** – 30% uwchlaw'r lefel gynaliadwy o 315 fesul nyrs WTE a argymhellir gan yr Ymddiriedolaeth MS

**...ac mae bwlch o ran cynllunio olyniaeth gan y bydd 7 niwrolegydd ymgynghorol ac 8 nyrs MS yn ymddeol dros y pum mlynedd nesaf**

### Bylchau amlwg mewn timau amlddisgyblaethol MS

Er gwaetha'r ffaith bod **cyfraddau iselder 2-3 gwaith yn uwch ymysg cleifion MS,** dim ond Caerdydd a'r Fro a Chwm Taf sydd â mynediad at wasanaeth niwroseicoleg penodol ar gyfer MS[4]

Dangosodd data cynllun peilot Eiriolwyr Gofal ar gyfer MS Datblygedig fod potensial i gyflawni **arbedion o £465,376 y flwyddyn fesul safle**, ond nid oes dim o'r eiriolwyr hyn yn cael eu defnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd[5]

**Dim ond 3 bwrdd iechyd sy'n darparu gwasanaethau cartref,** ac mae hyn yn creu rhwystrau i gleifion ag amhariad symudedd

Cafodd y prosiect hwn ei ysgogi, ei ariannu a'i gyflawni gan Merck gyda'r Athro Neil Robertson a chlinigwyr eraill o Gymru.

NONNI-00105 | Mai 2026


## Mae gofal MS yn amrywio yn dibynnu ar ble mae cleifion yn byw yng Nghymru

Mae cleifion yn wynebu teithiau yn ôl a blaen o hyd at 6 awr ar gyfer gofal arbenigol, ac mae penderfyniadau ynghylch triniaeth yn aml yn cael eu dylanwadu gan gyfyngiadau teithio yn hytrach nag angen clinigol


Cleifion yng Ngogledd Cymru sydd â'r lleiaf o fynediad at ymgynghorwyr (0.8 WTE fesul 10,000 o gleifion MS o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 1.7 WTE fesul 10,000 o gleifion) a'r llwythi achosion nyrsys uchaf[6] (501 o gleifion fesul WTE o gymharu â chyfartaledd Cymru o 410)

**Ceir heriau ym Mhowys,** gyda gofal tameidiog yn cael ei ddarparu gan nifer o ddarparwyr yng Nghymru a Lloegr

### Mynediad i ymgynghorwyr
*(WTE fesul 1,000 o gleifion MS)*




### Llwythi achosion nyrsys
*(fesul WTE)*





## Mae perfformiad yn erbyn safonau clinigol yn amrywio ar draws byrddau iechyd

Er bod y rhan fwyaf o fyrddau iechyd yn dweud eu bod yn bodloni'r amserlenni yng nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), mae anghysondebau yn y ffordd y mae'r llwybr a argymhellir yn cael ei weithredu[7]

**Ceir anghydraddoldebau o ran mynediad at therapïau addasu clefydau (DMT),** ac mae'r cyfraddau sy'n manteisio ar driniaeth gyntaf effeithiol iawn yn amrywio o 16% (Betsi Cadwaladr) i 70% (Caerdydd a'r Fro)

### Mynediad at driniaeth gyntaf effeithiol iawn




## Argymhellion strategol ar gyfer gwella gofal MS yng Nghymru

Sefydlu **canolfan newydd sy'n arbenigo mewn MS** ar gyfer canolbarth Cymru

Parhau i ddatblygu **canolfan sy'n arbenigo mewn MS wedi'i hariannu'n annibynnol** yng Ngogledd Cymru

Datblygu **gofynion gwasanaeth sylfaenol** ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fesul 1000 o gleifion

**Safoni polisi a phrosesau** ar gyfer adolygiadau blynyddol

Gweithredu ac annog **System Cofnodion Cleifion Electronig yn benodol ar gyfer MS ledled Cymru**

Blaenoriaethu cynllunio olyniaeth drwy **ymgysylltu a hyfforddiant**


**CYFEIRIADAU** **1** Ymddiriedolaeth MS, Number of people living with MS in the UK increases, May 2024 **2** Cymdeithas MS, Disease Modifying Therapies. Fel ym mis Mehefin 2025 **3** The European Academy of Neurology Brain Health Strategy: One brain, one life, one approach - Bassetti - 2022 - European Journal of Neurology - Wiley Online Library **4** Boeschoten, R. E., et al. (2022). "Prevalence of depression and anxiety in multiple sclerosis: A systematic review and meta-analysis." Journal of the Neurological Sciences, 372, 331-341. Meta-ddadansoddiad yn dangos cyfraddau iselder 2-3 gwaith yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol **5** National Health Executive (2022), Advanced Multiple Sclerosis Champions saving the NHS millions **6** Ymddiriedolaeth MS, Multiple sclerosis specialist nursing in the UK 2021, 2021 **7** Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), Multiple sclerosis in adults: management (Clinical guideline CG186), 2022.



NONNI-00105 | Mai 2026